

CYFARFOD	Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
DYDDIAD	10 Medi 2013
PWNC	Gwybodaeth i Aelodau
PWRPAS	Cyflwyno adborth yr aelodau am Rhaeadr a thrafod dulliau o gyfathrebu gydag aelodau etholedig
AWDUR	Geraint George, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae angen ystyried y modd y mae aelodau etholedig yn cyrchu gwybodaeth er mwyn cyflawni eu rôl yn llwyddiannus. I gwrdd â'r angen yma, sefydlwyd *Rhaeadr* fel porth gwybodaeth hwylus i'r aelodau allu cyrchu ato yn rheolaidd.
- 1.2 Mae'n amserol nawr i ystyried y defnydd a wneir o *Rhaeadr*, ynghyd â dulliau eraill o raeadru gwybodaeth i'r aelodau, gan hefyd roi ystyriaeth i gyfryngau eraill ar gyfer casglu sylwadau ac ymatebion gan yr aelodau ar bynciau amrywiol.

2. CYFLWYNO GWYBODAETH TRWY RHAEDR

- 2.1 Yn ystod mis Awst 2013, bu i Swyddog Cyfathrebu'r Cyngor gysylltu gydag aelodau etholedig yn uniongyrchol dros y ffôn er mwyn derbyn adborth ganddynt am *Rhaeadr*.
- 2.2 Mae'r sylwadau a dderbyniwyd am *Rhaeadr* yn cynrychioli sampl o 28% o holl aelodau etholedig y Cyngor.
- 2.3 O'r holl sampl, isod cyflwynir y prif negeseuon a dderbyniwyd am *Rhaeadr*:
 - 29% o'r aelodau a holwyd yn teimlo fod Rhaeadr yn hawdd i'w ddefnyddio
 - 29% o'r aelodau a holwyd yn defnyddio Rhaeadr yn rheolaidd
 - 29% o'r aelodau a holwyd yn teimlo fod y wybodaeth ar Rhaeadr yn gryno ac yn ddefnyddiol ac yn fodlon gyda'r cynnwys.
 - 14% o'r aelodau a holwyd eisiau mwy o wybodaeth amserol am bethau a oedd yn digwydd yn lleol yn eu wardiau
 - 10% o'r aelodau a holwyd yn awyddus i dderbyn hyfforddiant ar sut i ddefnyddio Rhaeadr ar yr i-pad
 - 19% o'r aelodau a holwyd yn datgan nad ydynt yn defnyddio Rhaeadr
- 2.4 Cesglir o'r adborth uchod, fod yr aelodau etholedig ar y cyfan yn teimlo fod Rhaeadr yn ddefnyddiol o safbwynt cyflwyno gwybodaeth iddynt.

3. DERBYN SYLWADAU A / NEU YMATEBION TRWY RHAEDR

- 3.1 Fodd bynnag, mae tystiolaeth yn dangos nad yw *Rhaeadr* yn gyfrwng mor llwyddiannus i ennyn sylwadau a/neu ymatebion gan yr aelodau

etholedig ar ryw bwnc arbennig. Mae profiad diweddar wedi dangos mai pur anaml y derbynnir unrhyw ymatebion i geisiadau o'r fath.

- 3.2 Cyfyd hyn amheuaeth ynglŷn ag addasrwydd *Rhaeadr* fel cyfrwng i ennyn sylwadau ac ymatebion, er ei fod yn gyfrwng derbyniol i gyflwyno gwybodaeth.
- 3.3 Mae angen ystyried, felly, beth yw'r ffordd orau o ennyn sylwadau ac ymatebion gan aelodau etholedig i'r dyfodol.

4. HOLIADUR I AELODAU ETHOLEDIG

- 4.1 Mae holiadur wedi ei lunio i aelodau etholedig yn ymwneud â nifer o faterion gwahanol gan gynnwys cyfathrebu.
- 4.2 Bwriedir defnyddio'r holiadur hwn i dderbyn gwybodaeth gan aelodau ynglŷn ag unrhyw broblemau neu anawsterau sydd ganddynt o safbwynt cyfathrebu.
- 4.3 Mae angen ystyried y ffordd orau o sicrhau ymatebion gan yr aelodau i'r holiadur hwn, er mwyn sicrhau adborth cynhwysfawr fydd yn cyfleu negeseuon clir ynglŷn ag anghenion cyfathrebu yr aelodau i'r dyfodol.

5. ARGYMHELLION

- 5.1 Argymhellir fod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn:-
 - a) rhoi arweiniad ar unrhyw ddatblygiadau pellach i *Rhaeadr*
 - b) rhoi arweiniad ynglŷn â'r camau nesaf y dylid eu cymryd o safbwynt edrych ar ddulliau o dderbyn sylwadau a/neu ymatebion gan aelodau etholedig
 - c) rhoi arweiniad ynglŷn â'r dulliau gorau o dderbyn ymatebion gan yr aelodau i holiadur sydd wedi ei lunio ar eu cyfer.